

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Costau cynyddol

Yr effaith ar ddiwylliant a chwaraeon

Tachwedd 2022



Rhagair y Cadeirydd


Mae angen cymorth ychwanegol ar ein sectorau diwylliant a chwaraeon i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Maent yn dal i wynebu effeithiau'r pandemig - ran cyfranogiad ac o ran eu hiechyd ariannol - ac felly nid ydynt mewn sefyllfa i oroesi'r storm rydym i gyd yn ei hwynebu ar hyn o bryd. Cafodd Llywodraeth Cymru ganmoliaeth haeddiannol am fuddsoddi dros £140 miliwn yn y sectorau hyn i sicrhau eu bod yn goroesi yn ystod y pandemig. Mae angen cymorth pellach erbyn hyn i roi hwb i'r sectorau hyn, ac i sicrhau nad yw'r buddsoddiad hwn yn cael ei wastraffu.

Mae wedi bod yn amlwg yn y dystiolaeth a gawsom nad yw cyfranogiad mewn diwylliant a chwaraeon wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn niweidio'r incwm yn y sectorau hyn, ac yn golygu bod llawer o bobl - yn aml y rhai mwyaf difreintiedig - yn colli'r manteision corfforol, meddyliol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan. Cafodd y sectorau hyn ddyraniadau cyllideb gan Lywodraeth Cymru a oedd yn wastad i raddau helaeth yn 2022-23, gan olygu nad ydynt yn cyfateb i'r gyfradd chwyddiant. Gyda'r adnoddau sydd ganddynt, y mwyaf y gall y sectorau hyn obeithio amdano yw na fydd bylchau anghydraddoldeb yn tyfu.

Dyweddodd Cyngor y Celfyddydau wrthym fod yr "argyfwng sy'n wynebu'r sector mor fawr ag ar unrhyw adeg dros y ddwy flynedd diwethaf." Mae lleoliadau diwylliannol a chwaraeon yn aml yn defnyddio llawer o ynni, ac yn gweithredu gyda maint elw cul sy'n golygu y byddant yn ei chael yn anodd talu costau ynni llethol. Croesewir cefnogaeth Llywodraeth y DU gyda biliau ynni ond nid yw'n cynnig unrhyw sicrwydd y tu hwnt i chwe mis. Byddai'n drasiedi pe baem yn colli'r pyllau nofio lle rydym yn dysgu ein plant i nofio ac yn cynnig ymarfer corff hygyrch i'r rhai sydd ei angen.

Yn anffodus, nid dyma ein hargyfwng cyntaf. Ar ddechrau'r pandemig fe wnaethom ddysgu'r wers ei bod yn well gorymateb, yn hytrach na cheisio datrys problem fwy yn y dyfodol. Cafodd Llywodraeth Cymru ganmoliaeth haeddiannol gan y sector diwylliannol am ba mor gyflym oedd ei hymateb i COVID-19 - ond hyd yma mae ei hymateb i effaith costau cynyddol ar ddiwylliant a chwaraeon wedi methu â chyd-fynd â pha mor ddifrifol yw'r argyfwng. Roedd y pandemig yn broblem gyffredinol a oedd yn gofyn am ymatebion penodol i'r sector. Byddem yn dadlau bod yr un peth yn wir am yr argyfwng costau byw. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y "twf yng nghostau ynni ynghyd â chwyddiant cynyddol yn peri risgiau i unigolion, aelwydydd, busnesau, sefydliadau a sectorau na welwyd ers yr Ail Ryfel Byd." Mae angen iddynt weithredu yn unol â hynny nawr.

O ystyried yr amgylchedd newidiol iawn y cynhaliwyd y gwaith hwn ynddo, mae'r holl gyfeiriadau'n gywir ar adeg cytuno ar yr adroddiad ar 17 Tachwedd 2022.



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatrys ei phryderon am y "risg difrifol iawn" i'r casgliadau.7
- Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU roi cymorth i leoliadau chwaraeon a diwylliannol gyda chostau ynni y tu hwnt i chwe mis y cynllun cychwynnol. Dylid cadarnhau'r gefnogaeth hon yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach er mwyn rhoi sicrwydd tymor canolig a hir i'r lleoliadau hyn.16
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymddiriedolaethau hamdden yn gymwys i gael cymorth i ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni, fel yr hyn sydd ar gael gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.16
- Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid cyfalaf i'r sector chwaraeon a diwylliannol er mwyn iddynt ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni.16
- Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.18
- Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau brys â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i alw am becyn cymorth ar gyfer y DU gyfan i gefnogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon mewn ymateb i bwysau costau byw.18
- Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol mewn Canolfannau Clyd, ac ariannu'r darparwyr yn unol â hynny.18
- Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn ystod yr argyfwng costau byw. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n rhoi cymorth penodol i'r sectorau diwylliant a chwaraeon i liniaru effeithiau'r cynnydd mewn costau byw.20
- Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, a dyfodd yn ystod y pandemig ac sy'n cael eu gwaethygu gan yr amgylchiadau presennol.20
- Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith ymgysylltu â'r sector diwylliant er mwyn helpu i ddatblygu ei hymateb i'r cynnydd mewn costau byw.20

1. Cyflwyniad

1. Mae costau byw wedi bod yn cynyddu'n raddol ers dechrau 2021. I ddechrau, cafodd hyn ei ysgogi gan y galw byd-eang cryf am nwyddau yn dilyn y cyfyngiadau symud a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19. Yn fwy diweddar, y prif ffactor sy'n ysgogi chwyddiant yw prisiau ynni, gyda chostau ynni cartrefi a chostau petrol yn cynyddu'n sylweddol. Ym mis Chwefror 2022, roedd cynnydd o 54 y cant yn y cap ar brisiau ynni (i £1,971 ar gyfer defnydd blynyddol arferol). Yn gynnar ym mis Medi 2022, roedd hyn i fod i gynyddu eto i £3,549, cyn i Lywodraeth y DU ymyrryd a gosod "cap" o £2,500 am ddwy flynedd ar gyfer defnydd arferol dros gyfnod o flwyddyn. Ar 17 Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r "cap" dwy flynedd hwn bellach yn weithredol tan fis Ebrill 2023 yn unig. Yn lle hynny, bydd adolygiad yn cael ei gynnal dan arweiniad y Trysorlys i ystyried sut i gefnogi cartrefi a busnesau gyda biliau ynni ar ôl Ebrill 2023.

2. Nid oes unrhyw berson, aelwyd, busnes na sefydliad wedi gallu osgoi'r codiadau hyn mewn prisiau. O ystyried hyn, fe wnaethom ni fel pwyllgor gytuno yn ystod haf 2022 y dylem gynnal ymchwiliad brys i ymchwilio i effaith y costau cynyddol hyn ar y sectorau sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. I'r perwyl hwn, ar 1 Medi 2022 gwnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar effeithiau costau cynyddol ar y sectorau o fewn portffolio ein Pwyllgor. Cawsom 35 o ymatebion dros y cyfnod o bythefnos y bu ein hymgyngoriad ar agor.

3. Ar 6 Hydref 2022, gwnaethom ystyried tystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr yn y sectorau diwylliannol a chwaraeon yng Nghymru. Amlinellir crynodeb o'r tystion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

4. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein casgliadau a'n hargymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn, fel bob amser, i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn.

2. Costau cynyddol, cyllidebau gwastad a llai o gyfranogiad

Mae dyraniadau cyllideb sy'n wastad i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ym meysydd diwylliant a chwaraeon yn golygu bod chwyddiant yn lleihau'r dyraniadau hyn. Ar yr un pryd, nid yw cyfranogiad mewn diwylliant a chwaraeon wedi adfer yn gyfan gwbl i'r lefel cyn pandemig COVID-19.

5. Mae'r 'argyfwng costau byw' yn cyfeirio at y gostyngiad mewn incwm gwario mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant ac ar ôl trethi a budd-daliadau) yn y DU ers diwedd 2021. Yn y rhagolwg diweddaraf gan Fanc Lloegr bydd chwyddiant yn cyrraedd uchafbwynt o 13.1 y cant ym mhedwerydd chwarter 2022. Disgwylir i chwyddiant aros yn uchel am y ddwy flynedd nesaf: mae'r Banc yn disgwyl na fydd chwyddiant yn cyrraedd ei darged o 2 y cant tan drydydd chwarter 2024. Mae chwyddiant yn ganlyniad costau ynni uwch, sydd wedi eu hysgogi gan brinder nwy rhyngwladol¹.

6. Cafodd y prif sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y sectorau a drafodir yr adroddiad hwn ddyraniadau refeniw gwastad i raddau helaeth yng nghyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23:

- Mae cyllid refeniw Amgueddfa Cymru yn cynyddu o £27.1 miliwn yng nghyllideb derfynol 2021-22 i £27.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2022-23, sef cynnydd o 1 y cant.
- Mae cyllid refeniw ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol yn gostwng o £12.9 miliwn yng nghyllideb derfynol 2021-22 i £12.3 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2022-23, gostyngiad o 5 y cant. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu cyllid untro a ddyrannwyd yn 2021-22 i roi canfyddiadau adolygiad ar waith.

¹ Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn gywir ar adeg eu hystyried; o ystyried yr ansefydlogrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd, rydym yn sylweddoli y gallai'r darlun fod yn wahanol ar adeg cyhoeddi'r ffigurau.

- Yn 2021-22, mae cyllid refeniw ar gyfer y Cyngor Celfyddydau yn cynyddu o £32 miliwn yng nghyllideb derfynol 2021-22 i £32.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2022-23, sef cynnydd o 1.5 y cant.
- O gymharu â chyllideb derfynol 2021-2022, mae cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru yn cynyddu o £22.4 miliwn i £22.7 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 (cynnydd o 1 y cant mewn termau arian parod).

7. Dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth wrthym y byddai ei gwariant yn 2022-23 fwy na thebyg yn fwy na'i chyllid gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod:

risg difrifol iawn o hyd i'r casgliadau ac mae hynny, yn ein barn ni, yn hollol annerbyniol heb gyllid ychwanegol.

8. Cafodd y pandemig effaith aruthrol ar gyfranogiad mewn diwylliant a chwaraeon. Daeth yr holl berfformiadau a digwyddiadau wyneb yn wyneb i ben a chamodd y llywodraeth i'r adwy i sicrhau nad oedd swyddi'n cael eu colli a lleoliadau'n cau ar raddfa eang. Er bod y cyfyngiadau wedi dod i ben o'r diwedd ar ddechrau 2022, mae cyfranogiad yn parhau i fod gryn dipyn yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

9. Roedd lleoliadau diwylliannol (fel lleoliadau cerddoriaeth fyw) ar gau am lawer o gyfnod aciwt y pandemig, ac yn dilyn y cyfnod hwn roedd llawer wedi gwario llawer o'u cronfeydd wrth gefn ar oroesi. Mae'r Cyngor Celfyddydau yn amcangyfrif bod lefel y cynulleidfaoedd dim ond 60-80 y cant o'r lefelau cyn y pandemig, ac ac yn nodi bod yr "argyfwng sy'n wynebu'r sector mor fawr ag ar unrhyw adeg dros y ddwy flynedd diwethaf."

10. Gadawodd y pandemig waddol o gyfranogiad anghyfartal mewn chwaraeon, gyda dynion, oedolion hŷn, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai â chyflwr neu salwch hirsefydlog yn fwyaf tebygol o deimlo bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol ar eu harferion ymarfer corff.

11. Yn fuan ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf yng ngwanwyn 2020, comisiynodd Chwaraeon Cymru ymchwil ynghylch arferion ymarfer corff newidiol y genedl. Yn yr arolwg cyntaf ym mis Mai 2020, dywedodd oedolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff nag yn y cyfnod cyn y pandemig. Nododd oedolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol fod eu lefelau ymarfer corff wedi gostwng.

12. Mae data – o fis Chwefror 2022 – yn dangos bod bron i draean o oedolion yn teimlo bod y pandemig wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'w harferion ymarfer corff. Ond roedd dros 40 y cant o oedolion yn teimlo bod y gwrthwyneb yn wir. Dynion, oedolion hŷn, pobl o

gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a phobl â chyflwr neu salwch hirsefydlog yw'r mwyaf tebygol o deimlo bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol ar eu harferion ymarfer corff.

13. Ar yr un pryd, mae Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru yn dangos bwlch amddifadedd parhaus o ran cyfranogiad oedran ysgol mewn chwaraeon. Yn 2022, gwnaeth 32 y cant o ddisgyblion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn seiliedig ar gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim) gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 47 y cant o ddisgyblion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae'r bwlch hwn o 15 pwynt canran wedi cynyddu ychydig (2 bwynt canran) ers yr arolwg diwethaf yn 2018.

14. Eglurodd Owen Hathway o Chwaraeon Cymru sut y cafodd problemau eu gwaethygu gan y pandemig o ganlyniad i gostau cynyddol:

"coming through that was a bit of a Herculean effort, and the financial resilience that they have going into a cost-of-living increase is quite small. If the pandemic hadn't happened, the cost-of-living increase, currently, might be more negotiable, but we are compounding two issues, which are obviously leading towards a much worse impact"

Casgliad 1. Nid oedd diwylliant a chwaraeon mewn sefyllfa dda i oroesi effaith costau sy'n cynyddu'n gyflym. Mae effeithiau'r pandemig yn dal i gael eu teimlo yn y sectorau hyn, gyda gostyngiadau mewn cyfranogiad yn parhau y tu hwnt i ddiwedd cyfyngiadau COVID. Mae dyraniadau cyllideb sy'n wastad i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru yn llai na'r lefel chwyddiant, ac o ystyried lefelau cyfranogiad is, nid yw'r bwlch hwn yn debygol o gael ei lenwi gan incwm masnachol.

Casgliad 2. Rydym yn bryderus iawn ynghylch datganiad y Llyfrgell Genedlaethol bod gostyngiadau yn y gyllideb gyfalaf wedi arwain at "risg ddifrifol iawn" i'r casgliadau. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 nodwyd bod y Llyfrgell Genedlaethol (ac Amgueddfa Cymru) yn "drysorau absoliwt" a gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru bryd hynny i amlinellu sut y byddant yn cefnogi'r sefydliadau hyn.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatrys ei phryderon am y "risg difrifol iawn" i'r casgliadau.

3. Effeithiau presennol: costau uwch yn lleihau cyfranogiad ymhellach

Mae cynnydd mewn costau byw yn niweidio cyfranogiad ymhellach. Mae gan unigolion lai o arian i'w wario, ac mae'n rhaid i ddarparwyr gynyddu costau neu leihau gwasanaethau i gael dau ben llinyn ynghyd.

Chwaraeon

- 15.** Mae data diweddar (Awst 2022) gan Chwaraeon Cymru yn awgrymu bod cynnydd mewn costau byw wedi niweidio cyfranogiad ymhellach. Mae 41 y cant o ymatebwyr yn dweud bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i wneud ymarfer corff, tra bod 29 y cant yn dweud eu bod wedi bod yn gwneud llai o chwaraeon a gweithgarwch corfforol oherwydd newidiadau mewn costau byw.
- 16.** Mae pwyntiau pellach a godwyd yn ein hymgyngoriad yn cynnwys:
- “Mae perchnogion cyfleusterau yn cael eu gorfodi i gynyddu eu taliadau llogi i glybiau chwaraeon lleol a grwpiau cymunedol, sydd naill ai'n gwneud y gweithgaredd yn anymarferol neu'n gwthio'r pris ar gyfer cyfranogiad yn uwch, gan gynyddu'r bwlch cyfranogiad.” (Chwaraeon Cymru)
 - “Attendance rates at venues and events continue to be below pre Covid levels (70-90 per cent of 2019 rates).” (Cymdeithas Chwaraeon Cymru)
- 17.** Ar 6 Hydref 2022, clywsom dystiolaeth lafar gan Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Community Leisure UK, a roddodd ddarlun o'r sefyllfa ddifrifol o ran effaith costau uwch ar y sector hyd yn hyn.
- 18.** Nododd Owen Hathway o Chwaraeon Cymru fod rhai rhieni a gwarcheidwaid yn osgoi annog eu plant i gymryd rhan mewn chwaraeon, oherwydd costau cynyddol sy'n gysylltiedig â bwydo plentyn llwglyd ar ôl ymarfer corff. Dywedodd wrthym hefyd fod yr argyfwng wedi cael effaith negyddol ar allu tua dau o bob pump o bobl i wneud ymarfer corff, a bod 30 y cant yn dweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch corfforol. Casglwyd y wybodaeth hon cyn y cynnydd diwethaf ym mhrisiau ynni.

19. Siaradodd Owen Hathway o Chwaraeon Cymru hefyd am effeithiau mwy cudd costau uwch, a allai arwain at rai pobl naill ai'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ffyrdd sy'n fwy peryglus, neu'n osgoi cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol oherwydd peryglon canfyddedig. Yr enghraifft a roddodd oedd merched ifanc a allai gael eu gorfodi i benderfynu a ddylid rhedeg y tu allan gyda'r nos, yn hytrach na pharhau i dalu ffioedd aelodaeth campfa.

20. Dywedodd Jennifer Huygen o Community Leisure UK wrthym y gellir gweld effaith pwysau costau ar incwm gwario mewn cyfraddau cyfranogiad. Mae hyn wedyn yn effeithio ar incwm sefydliadau neu awdurdodau lleol sy'n rheoli'r gwasanaethau hyn hefyd.

21. Dywedodd Andrew Howard o Gymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym fod gweithredwyr pyllau nofio – sy'n wynebu cynnydd mewn galw ar ôl i'r pandemig darfu ar wersi nofio – yn gostwng y tymheredd er mwyn arbed arian. Ychwanegodd fod un o'i aelodau yn amau a fyddai pyllau nofio yn dal i fodoli yn ei ardal yn y 12 mis nesaf.

Diwylliant

22. Mae'r pwyntiau penodol a godwyd yn ein hymgyngoriad ysgrifenedig yn cynnwys y canlynol:

- "The sector is financially fragile - lots of late bookings, lack of public confidence and cash, high numbers of no-shows so no secondary income on bars etc" (Laura H Drane Associates – cynhyrchydd ac ymgynghorydd celfyddydau).
- "Mae cwmnïau teithiol yn wynebu costau cynyddol o ran tanwydd a lletya pobl. Chwiliant am warantau neu ffioedd sefydlog gan theatrau a lleoliadau. Mae costau cynyddol a chymhlethdod teithio rhyngwladol a'r cwmp cysylltiedig yn y galw am ein cwmnïau teithiol i fynd dramor hefyd yn gadael eu hôl." (Y Cyngor Celfyddydau)
- "Mae artistiaid a gweithwyr creadigol llawrydd naill ai'n gorfod cynyddu eu ffioedd neu'n symud i swyddi diogelach mewn sectorau eraill". (Y Cyngor Celfyddydau)
- "The cost of touring for artists and performers, due to the fuel cost increase of 47 per cent in the last 12 months, is resulting in both a reduction in the number of shows being offered and higher artist fees to cover costs". (Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth)

23. Yn ei thystiolaeth ar lafar, mae Clare Cullen o'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth yn egluro'r canlynol:

"we're moving out of the COVID period but it doesn't feel like we're heading towards recovery; it feels like this is an additional crisis on top of what we've already seen."

4. Effeithiau a ragwelir: gostyngiadau mewn gweithgarwch a chau lleoliadau yn barhaol

Mae cap Llywodraeth y DU ar brisiau ynni wedi osgoi effeithiau gwaethaf posibl y cynnydd mewn costau byw. Ond mae'r sector yn dal i rybuddio am ostyngiadau eang mewn gweithgarwch a'r posibilrwydd y bydd lleoliadau'n cau'n barhaol.

24. Daeth ymgynghoriad y Pwyllgor i ben cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ar gyfer defnyddwyr annomestig ar 21 Medi 2022, a daeth llawer o ymatebion i law cyn i'r cynllun domestig gael ei gyhoeddi ar 8 Medi 2022.

Diwylliant

25. Mewn datganiad cyhoeddus yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU dywedodd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth y canlynol:

Music Venue Trust warmly welcomes this intervention by the Government, which appears at face value to comprehensively tackle the immediate short term energy crisis for Grassroots Music Venues. We await full details of the scheme and the method of implementation by the energy retailers and suppliers, but the base unit rate of 21.1p per kW/h laid out by these plans is sufficient to avert the collapse of the sector if it is fully delivered.

26. Buom yn trafod yr effeithiau a ragwelir o ran y cynnydd mewn costau byw, yng ngoleuni cyhoeddiadau Llywodraeth y DU ynghylch prisiau ynni, gyda thystion o Gyngor Celfyddydau Cymru, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth a Creu Cymru (corff aelodaeth ar gyfer celfyddydau perfformio) ar 6 Hydref 2022. Y teimlad cyffredinol oedd er y gallai cyhoeddiad Llywodraeth y DU olygu y byddwn yn osgoi 'cwmp y sector', gallai difrod sylweddol, gan gynnwys cau lleoliadau, ddigwydd o hyd. Dywedodd Michael Elliot o'r Cyngor Celfyddydau wrthym ei fod yn ei groesawu, ond nad dyna'r ateb i'r problemau sydd gan y sector.

27. Trafododd Michael Elliot ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan y Cyngor Celfyddydau gyda ni, gan nodi bod 50 y cant neu fwy o'r rhai a ymatebodd yn dweud y bydd yn rhaid iddynt leihau eu gweithgarwch a lleihau rhaglenni dros y misoedd nesaf.

28. Eglurodd Mr Elliot hefyd fod y sector yn wynebu amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr adferiad ar ôl y pandemig, chwyddiant o hyd at 20-40 y cant o fewn y celfyddydau perfformio, a Brexit yn lleihau cyfleoedd tramor. O ganlyniad:

"Organisations (are) telling us that they can see their way, perhaps, through the next three to six months, and beyond that, some 40 per cent of them are telling us that they can't see how they're going to cope longer term."

29. Dywedodd wrthym am bwysigrwydd penodol sioeau Nadolig i'r sector celfyddydau, a'r tebygolrwydd y bydd enillion yn cael eu cwtogi'n sylweddol o ganlyniad i effaith costau uwch ar gynulleidfaoedd. Ychwanegodd Louise Miles-Payne o Creu Cymru ei bod yn debygol iawn y bydd effaith hefyd ar 'wariant eilaidd hollbwysig' ar eitemau fel lluniaeth a nwyddau.

30. Dywedodd Clara Cullen o'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth ei bod yn pryderu ein bod mewn cyfnod lle byddwn yn gweld lleoliadau'n cau oherwydd yr argyfwng hwn, o bosibl ar raddfa yr oeddem yn meddwl y gallem ei gweld yn ystod COVID-19. Unwaith y bydd lleoliad yn cau, nododd, gan fod cymaint o gostau suddedig yn gysylltiedig â sefydlu lleoliad newydd, mae'n annhebygol iawn, iawn y bydd yn ailagor.

31. Effeithiodd pandemig COVID-19 yn anghymesur ar weithwyr llawrydd, sef – yn ôl amcangyfrif – hanner gweithlu'r sector diwylliannol yng Nghymru. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan un o gyrff y diwydiant, sef Llawryddion Celfyddydol Cymru, ym mis Ionawr 2022, yn cynnwys nifer o gasgliadau ysgytwol. Yn eu plith mae'r ffaith bod bron i chwarter y gweithwyr llawrydd yn dal i fod yn ansicr a fyddant yn aros yn y diwydiant ai peidio. Dywedodd tystion wrthym y byddai costau byw uwch yn gwneud niwed pellach i'r gweithlu creadigol. Eglurodd Michael Elliot:

We will certainly see, I think, a reduction in opportunity for freelancers and artists engaged by organisations over this period. We'll also see, like the point I made earlier, a lack of security and reward in our sector around employment, with others looking for shifts into sectors that give them greater reward and give them greater security than is available in our sector.

Chwaraeon

32. Dywedodd tystion o'r sector chwaraeon wrthym fod cap Llywodraeth y DU ar brisiau ynni wedi lliniaru'r problemau sy'n wynebu'r sector, ond heb eu datrys. Dywedodd Andrew Howard o Gymdeithas Chwaraeon Cymru nad yw'n mynd i'r afael â chostau uwch a wynebier eisoes ac nad yw ychwaith yn mynd i'r afael â phroblemau'r rhai sy'n dod oddi ar dariffau pris sefydlog gan y byddant yn cael eu taro gan gynnydd sylweddol. Roedd yn teimlo mai dim ond gohirio'r

ymateb yw hyn ac nad yw'n unrhyw beth sy'n rhoi unrhyw gysur o sicrwydd hirdymor i'w aelodau.

33. Dywedodd Jennifer Huygen o Community Leisure UK wrthym fod ei haelodau'n aml yn gwneud gwaith allgymorth yn eu cymunedau, megis mewn cartrefi gofal, ac y byddai'r gwaith hwn yn debygol o leihau. Nododd fod llai o gapasiti oherwydd niferoedd is o staff, ond hefyd oherwydd bod lefelau incwm yn gostwng ac felly nid oes digon o gyllid i draws-sybsideiddio'r rhaglenni hynny.

34. Roedd Ms Huygen yn teimlo bod cyfleusterau mewn perygl yn y tymor canolig. Disgrifiodd Andrew Howard o Gymdeithas Chwaraeon Cymru y sefyllfa arbennig o anodd sy'n wynebu pyllau nofio, sydd â biliau ynni uchel, ac sydd wedi wynebu problemau eraill, megis costau cynyddol ar cemegau glanhau.

Casgliad 3. Mae'r cynnydd mewn costau byw yn gwaethygu bylchau o ran cyfranogiad a dyfodd yn ystod y pandemig. Rydym yn bryderus iawn y bydd gostyngiadau pellach mewn gweithgarwch yn cael yr effaith fwyaf difrifol ar y rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r gweithgarwch hwn. Er enghraifft, efallai y bydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ei chael hi'n anoddach cael mynediad at amser mewn pwll nofio, a bydd dŵr oerach yn lleihau buddion y profiad hwn. Bydd gweithredwyr chwaraeon a diwylliant sy'n ymateb i bwysau costau drwy gynyddu prisiau yn atal pobl o gefndiroedd llai cefnog rhag cymryd rhan. Credwn y bydd hyn yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd yn sylweddol. O ystyried y cymorth a roddwyd i weithredwyr o'r fath i oroesi'r pandemig, credwn y byddai'r buddsoddiad hwn yn cael ei wastraffu pe na bai Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o gymorth pellach i'r sector.

5. Ymyriadau: cymorth pellach gyda chostau ynni a'r angen am gyllid ychwanegol

Mae angen ymestyn cymorth Llywodraeth y DU gyda chostau ynni ar gyfer y sectorau chwaraeon a diwylliant y tu hwnt i'r chwe mis cychwynnol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi cymorth wedi'i dargedu ar gyfer lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng presennol.

Cefnogaeth uniongyrchol gyda chostau ynni

35. Fel y trafodwyd eisoes, dywedodd y sectorau chwaraeon a diwylliant nad yw cap Llywodraeth y DU ar brisiau ynni, er ei fod wedi ein helpu i osgoi sefyllfa lle mae lleoliadau'n cau ar unwaith, wedi datrys y broblem o filiau ynni llethol.

36. Mae cynllun rhyddhad ar filiau ynni i fusnesau a chwsmeriaid annomestig eraill Llywodraeth y DU yn seiliedig ar yr elfen gyfanwerthu sydd ymhlyg yn y Warant Pris Ynni ar gyfer cwsmeriaid domestig. Ni fydd yr un peth â'r pris terfynol fesul uned a delir gan gwsmeriaid annomestig, a fydd hefyd yn adlewyrchu costau eraill megis taliadau rhwydwaith a chostau gweithredu, ynghyd ag effaith cystadleuaeth rhwng cyflenwyr. Eglurodd Jennifer Huygen o Community Leisure UK:

"therefore only part of their increased cost is covered through the energy bill relief scheme, and therefore it isn't actually providing as much support as we had hoped when initial announcements were made about business support."

37. Nododd Ms Huygen hefyd fod y cap yn dal i fod lawer uwch na chostau ynni yn y flwyddyn flaenorol a bod amseriad y cynllun yn eithrio rhai gweithredwyr, a'i fod wedi'i gyfyngu i chwe mis ar hyn o bryd:

"there will be organisations that fixed new contracts just before 1 April, for example in December last year or 1 January this year. I know colleagues in Wales have had that situation, where they had to renew contracts. They're currently left out. We also have members with contracts coming up in April"

2023, so they will be left out as well. But, that time frame itself is of course a challenge, but it's also that it's just not enough in terms of support now in the next six months. So, it's not enough to cover the impact over the next 12 to 18 months, and it's also not enough for the next six months. So, sorry to not have a more positive response on this for you."

38. Galwodd nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad (e.e. Theatr Hafren, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru) am gefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni a fyddai'n lleihau biliau yn y tymor hwy.

39. Mae Gwasanaeth Ynni. Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff y sector cyhoeddus a mentrau cymunedol i'w gwneud yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni. Galwodd Jennifer Huygen o Community Leisure Trust UK am eglurder ynghylch cymhwysedd ymddiriedolaethau hamdden ar gyfer y cymorth hwn, yn ogystal â mynediad at gynlluniau benthyciadau ynni sector cyhoeddus.

40. Ar ôl y cynllun chwe mis cychwynnol hwn, mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn rhoi cymorth parhaus â ffocws i ddiwydiannau sydd mewn perygl. Bydd adolygiad ymhen tri mis i ystyried ble y dylid targedu hyn. Gwnaeth tystion ddadlau dros gynnwys y sector chwaraeon a diwylliant yn y cymorth parhaus. Esboniodd Michael Elliot o Gyngor Celfyddydau Cymru i ni:

"whilst there's a lot of talk about the hospitality industry in general being a focus for attention the other side of the six-month period of support and cap on costs to business, we need to widen it to embrace our sector as well, which is closely aligned to the tourism and hospitality sector and suffers from many of the same challenges as that particular sector."

Casgliad 4. Rydym yn croesawu Cynllun Rhyddhad ar Ffiliau Ynni Llywodraeth y DU ar gyfer cwsmeriaid annomestig, ond nid yw wedi datrys y problemau sy'n wynebu'r sectorau diwylliant a chwaraeon. Mae'n lliniaru effeithiau gwaethaf posibl codiadau mewn prisiau ynni, ond yn gadael y rhain ar lefel sy'n sylweddol uwch na'r hyn yr oedd sefydliadau'n ei thalu'n flaenorol. Rydym o'r farn mai'r cwbl y mae hyn yn ei wneud yw symud yr ymyl clogwyn yn ôl chwe mis, ac nad yw hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn y tymor hir.

Casgliad 5. Mae lleoliadau chwaraeon a diwylliannol yn arbennig o agored i effeithiau unrhyw gynnydd mewn costau ynni. Maent yn lleoliadau sy'n defnyddio llawer o ynni ac sy'n gweithredu gyda maint elw cul o ran amsugno costau uwch. Mae'r sectorau hyn yn rhoi budd cymdeithasol aruthrol, fel y cydnabyddir gan y cyllid cyhoeddus a roddir i'r sectorau hyn, a statws elusennol llawer o weithredwyr.

Casgliad 6. Mae ateb mwy hirdymor i'r broblem o gostau ynni uwch yn cynnwys helpu sefydliadau i'w gwneud yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni. Gallai'r gwaith hwn gynnwys gwneud adeiladau'n fwy effeithlon o ran ynni a chynhyrchu ynni gwyrdd ar y safle. Mae seilwaith llawer o leoliadau chwaraeon a diwylliannol yn heneiddio ac mae hyn yn eu gwneud yn ddewis amlwg am gefnogaeth yn y maes hwn. Mae'r ansefydlogrwydd ariannol a achoswyd gan y pandemig yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd ganddynt yr adnoddau cyfalaf i ariannu'r gwaith hwn yn gyfan gwbl eu hunain.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth y DU roi cymorth i leoliadau chwaraeon a diwylliannol gyda chostau ynni y tu hwnt i chwe mis y cynllun cychwynnol. Dylid cadarnhau'r gefnogaeth hon yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach er mwyn rhoi sicrwydd tymor canolig a hir i'r lleoliadau hyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymddiriedolaethau hamdden yn gymwys i gael cymorth i ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni, fel yr hyn sydd ar gael gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid cyfalaf i'r sector chwaraeon a diwylliannol er mwyn iddynt ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni.

Cyllid ychwanegol

41. Galwodd nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad (e.e. Nofio Cymru, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, Creu Cymru, y Cyngor Celfyddydau, Undeb y Cerddorion a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru) am arian ychwanegol i liniaru effeithiau costau byw uwch.

42. Galwodd Michael Elliot o Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid ychwanegol – yn benodol ar gyfer y celfyddydau – o £5-10 miliwn. Esboniodd:

"I do think there is a case for increased support that looks specifically at the sustainability of organisations. What do I mean by that? I mean a clinical look at the real risks here and the cash flow of organisations. If there is a perceived longer term future with a here-and-now investment to help that organisation through a difficult period, that is the sort of support that might be manageable by us in partnership with the Welsh Government, if there was a significant additional input at the moment, but nothing like the scale that we've experienced during the pandemic. That won't solve all the problems for the sector we've described, but it would be a way of targeting support more specifically that will help stabilise companies through the critical period."

43. Yn ogystal, cwestiynodd Louise Miles-Payne o Greu Cymru a allai cymorth fod ar gael i gynulleidfaoedd, i sybsideiddio tocynnau ar gyfer digwyddiadau diwylliannol.

44. Mewn cyferbyniad, yn ystod y pandemig, dyrannodd Llywodraeth Cymru £108 miliwn o gyllid ychwanegol i'r sector diwylliant i liniaru effaith y feirws. Gwnaed hyn mewn tri cham gan ddechrau yn haf 2020. Roedd y cyllid hwn yn dilyn cyllid canlyniadol Barnett a sbardunwyd gan wariant ychwanegol gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r sector diwylliant yn Lloegr. Roedd gwariant ychwanegol cyntaf Llywodraeth y DU yn haf 2020. Cyn hyn, ym mis Ebrill 2020 lansiodd Cyngor Celfyddydau Cymru Gronfa Gwynwch y Celfyddydau gwerth £7 miliwn. Daeth £5.1 miliwn o'r cyllid hwn gan y Loteri Genedlaethol, a daeth y gweddill gan Lywodraeth Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau.

45. Ar ddechrau 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru, drwy ei his-adran Cymru Greadigol, y Gronfa Gymorth ar gyfer Cerddoriaeth Llawr Gwlad gwerth £400,000. Canmolwyd y gefnogaeth hon gan y sector, a dywedwyd wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd: "Hats off to them [...] how quick they were to [...] support those venues at a point that was the best in the UK".

46. Rhoddodd Llywodraeth Cymru dros £40 miliwn hefyd i'r sector chwaraeon mewn pecynnau cymorth yn ystod y pandemig.

Canolfannau Clyd

47. Roedd rhai ymatebion i'n hymgyngoriad yn nodi bod lleoliadau diwylliant a chwaraeon mewn sefyllfa dda i gynnig cymorth i'r gymuned leol i liniaru rhai o effeithiau'r cynnydd mewn costau byw. Galwodd Nofio Cymru am gyllid er mwyn i byllau ddod yn 'ganolfannau llesiant', a dywedodd Creu Cymru wrthym fod llawer o theatrau'n bwriadu bod yn agored i aelodau o'r cyhoedd gadw'n gynnes, ac y gellid eu hariannu ar gyfer y gwaith hwn.

48. Ar 20 Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1m o gyllid cychwynol i gefnogi Canolfannau Clyd. Rhoddwyd rhagor o fanylion mewn datganiad ar 12 Hydref 2022, gan gynnwys y gallai Canolfannau Clyd gynnig:

- Lluniaeth a byrbrydau (o leiaf) ond gallent ymestyn i brydau bwyd mwy sylweddol ble bo'n berthnasol neu'n bosibl.
- Cyngor a chymorth i'r rheini sy'n bresennol, er enghraifft cyngor a chymorth ar faterion ariannol, iechyd a lles neu hygyrchedd digidol.

- Gweithgareddau fel ymarfer corff, neu weithgareddau celfyddydol neu ddiwylliannol (yn ddibynnol ar y lleoliad ac argaeledd).

Casgliad 7. Roedd buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn diwylliant a chwaraeon yn ystod y pandemig yn achubiaeth a llwyddodd i atal lleoliadau rhag cau ar raddfa fawr. Cafodd y buddsoddiad hwn ei groesawu a'i gymeradwyo'n gyffredinol gan sefydliadau yn y sectorau hyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw, mae'r frwydr i oroesi yn y sectorau hyn ymhell o fod ar ben. Mae'r sefydliadau hyn yn wynebu costau cynyddol yn erbyn cefndir o lefelau cyfranogiad is, cronfeydd wrth gefn wedi'u gwario, a chyllid gwastad gan Lywodraeth Cymru nad yw'n cyfateb i'r cynnydd cyflym mewn chwyddiant. Credwn fod achos gryf dros gyllid pellach wedi'i dargedu. Yn ddelfrydol, byddai Llywodraeth y DU yn cynyddu cyllid yn Lloegr, a fyddai'n arwain at gyllid canlyniadol Barnett a allai ariannu'r gwaith hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn dangos ei bod yn bosibl gweithredu gyda'r adnoddau sydd gan Lywodraeth Cymru eisoes. Rydym o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru geisio gwneud hynny ar frys, neu wynebu'r risg o wastraffu dros £140 miliwn sydd eisoes wedi'i wario ar gadw diwylliant a chwaraeon i fynd yn ystod y pandemig.

Casgliad 8. Rydym yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Canolfannau Clyd i ddarparu amgylcheddau cyfforddus i bobl y gaeaf hwn. Mae lleoliadau chwaraeon a diwylliannol mewn sefyllfa dda nid yn unig i roi cynhesrwydd, ond i gynnal gweithgareddau hefyd. Efallai y bydd y bobl sy'n defnyddio Canolfannau Clyd yn rhai o'r un bobl sy'n colli allan ar weithgareddau chwaraeon a diwylliannol o ganlyniad i bwysau ariannol. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru y gallai'r gweithgareddau hyn gael eu cynnig mewn Canolfannau Clyd.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau brys â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i alw am becyn cymorth ar gyfer y DU gyfan i gefnogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon mewn ymateb i bwysau costau byw.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol mewn Canolfannau Clyd, ac ariannu'r darparwyr yn unol â hynny.

6. Gweithgarwch Llywodraeth Cymru: ymgysylltu cyfyngedig a dim ymateb penodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth cyffredinol i ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw, ond dim byd yn benodol ar gyfer y sectorau diwylliant a chwaraeon. Ceir darlun cymysg o ran ymgysylltu Llywodraeth Cymru â'r sector diwylliant yn ystod yr argyfwng.

49. Yn ei hymateb i'n hymgyngoriad, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

"Mae'r twf yng nghostau ynni ynghyd â chwyddiant cynyddol yn peri risgiau i unigolion, aelwydydd, busnesau, sefydliadau a sectorau na welwyd ers yr Ail Ryfel Byd."

50. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i unigolion i helpu gyda chostau byw uwch. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru: Gall aelwydydd cymwys hawlio taliad untro o £200 gan eu cyngor lleol. Nod yr arian yw helpu i dalu biliau tanwydd. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad tanwydd gaeaf y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig.
- Y Cynllun Cymorth Costau Byw: cynllun £152 miliwn i roi taliad costau byw o £150 i aelwydydd cymwys.
- Y Cynllun Cymorth Disgresiynol Costau Byw: £25 miliwn i roi cymorth dewisol at ddibenion eraill yn ymwneud â chostau byw

51. Nodwyd gennym nad yw wedi rhoi unrhyw gymorth penodol i'r sectorau diwylliant a chwaraeon.

52. Cawsom ddarlun cymysg o ran gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid. Dywedodd Louise Miles-Payne o Creu Cymru wrthym nad oedd unrhyw un wedi cysylltu â hi i drafod y syniadau hynny. Eglurodd Clara Cullen o'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth:

"During COVID, our main contact was with Creative Wales. We had a lot of meetings with them. In the more recent months, I would probably say 'no'. We probably do need more engagement."

53. Dywedodd Michael Elliot o'r Cyngor Celfyddydau wrthym eu bod wedi cael trafodaethau adeiladol a bod y Llywodraeth yn cymryd diddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ar draws y sector.

54. Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi adroddiad ynghylch Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom alw am ddull cenedlaethol newydd a hwb ariannol i fynd i'r afael â bylchau anghydraddoldeb o ran cyfranogiad chwaraeon a dyfodd yn ystod y pandemig, ac sy'n cael eu gwaethygu gan yr argyfwng costau byw. Yn ei hymateb, gwrthododd Llywodraeth Cymru y ddau argymhelliad hyn.

Casgliad 9. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y "twf yng nghostau ynni ynghyd â chwyddiant cynyddol yn peri risgiau i unigolion, aelwydydd, busnesau, sefydliadau a sectorau na welwyd ers yr Ail Ryfel Byd." Rydym yn pryderu nad yw difrifoldeb y sefyllfa wedi arwain eto at ymateb wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sectorau hyn.

Casgliad 10. Rydym wedi cael darlun cymysg o waith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â'r sector diwylliant o ran ymateb i'r argyfwng costau byw. Mae hyn yn wahanol i'r adroddiadau a ddarparwyd i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn ystod y pandemig COVID-19, lle cafodd y gefnogaeth a roddwyd gan Cymru Greadigol ei chanmol yn eang. Mae'n siomedig na fu dull mwy rhagweithiol o nodi anghenion cymorth y sector diwylliant yn ystod yr argyfwng presennol.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn ystod yr argyfwng costau byw. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n rhoi cymorth penodol i'r sectorau diwylliant a chwaraeon i liniaru effeithiau'r cynnydd mewn costau byw.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, a dyfodd yn ystod y pandemig ac sy'n cael eu gwaethygu gan yr amgylchiadau presennol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith ymgysylltu â'r sector diwylliant er mwyn helpu i ddatblygu ei hymateb i'r cynnydd mewn costau byw.

7. Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael arwefan y Pwyllgor.

Date	Name and Organisation
06 Hydref 2022	Andrew Howard, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Chwaraeon Cymru Owen Hathway, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus, Chwaraeon Cymru Jennifer Huygen, Pennaeth Polisi a Phartneriaethau Strategol, Community Leisure UK Wales
06 Hydref 2022	Michael Elliott, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyngor Celfyddydau Cymru Mark Davyd, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd, yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth Louise Miles-Payne, Cyfarwyddwr, Creu Cymru

8. Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Reference	Organisation
IIC 01	Arts and Business Cymru
IIC 02	Cyngor Celfyddydau Cymru
IIC 03	Community Leisure UK Wales
IIC 04	Creu Cymru
IIC 05	Hafren
IIC 06	Unigolyn
IIC 07	Unigolyn
IIC 08	Making Music
IIC 09	Mudiad Meithrin
IIC 10	Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth
IIC 11	PACEY
IIC 11	Clybiau Plant Cymru
IIC 13	Chwaraeon Cymru
IIC 14	Nofio Cymru
IIC 15	Merched y Wawr
IIC 16	Ffederasiwn Busnesau Bach
IIC 17	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
IIC 18	Equity Cymru
IIC 19	Cyngor Caerdydd
IIC 20	Creative Lives

IIC 21	UK Music
IIC 22	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
IIC 23	Cyngor Llyfrau Cymru
IIC 24	Gweithredu yng Nghaerau a Threlái
IIC 25	Ofcom
IIC 26	Llenyddiaeth Cymru
IIC 27	Undeb y Cerddorion
IIC 28	Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
IIC 29	TAC
IIC 30	Yr Urdd
IIC 31	Mentrau Iaith Cymru
IIC 32	Colegau Cymru
IIC 33	Cymdeithas yr Amgueddfeydd
IIC 34	Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
IIC 35	Cymdeithas Chwaraeon Cymru